My Vote My Voice

# **Eich Canllaw Darllen Hawdd** i brif bleidiau gwleidyddol Cymru





Mae gan bobl syniadau gwahanol ynghylch sut ddylai'r wlad gael ei rhedeg.



Grŵp o bobl yw **plaid wleidyddol** sy'n rhannu syniadau ynghylch sut ddylai'r wlad gael ei rhedeg.




Mae pleidiau gwleidyddol eisiau bod mewn **llywodraeth** fel y gallant droi eu syniadau’n ddeddfau.

Mae'r llywodraeth yn grŵp o bobl sydd â'r pŵer i wneud deddfau a phennu rheolau ar gyfer y wlad.




Mae gan Gymru **bedair prif blaid wleidyddol**.




Y rhain yw:

- **y Blaid Lafur**
- **y Blaid Geidwadol**
- **y Democratiaid Rhyddfrydol**
- **Plaid Cymru**




Yn aml mae pleidiau gwleidyddol yn cael eu disgrifio fel **adain chwith** neu **adain dde**.




Mae rhai pleidiau gwleidyddol hefyd yn cael eu disgrifio fel yn y **canol**.



Mae'r pleidiau gwleidyddol adain chwith yn credu mewn **cydraddoldeb**.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau i bawb gael cyfleoedd cyfartal a mwy o gefnogaeth gan y llywodraeth.




Mae'r pleidiau gwleidyddol adain dde yn credu mewn **traddodiad**.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau i bobl wneud eu penderfyniadau eu hun ynghylch eu bywydau ac i'r llywodraeth fod yn llai.




Mae'r pleidiau gwleidyddol yn y canol yn cefnogi **cydbwysedd** rhwng syniadau adain chwith ac adain dde.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau cydraddoldeb a hefyd eisiau i bobl wneud eu penderfyniadau eu hun ynghylch eu bywydau eu hun.




Mae'r rhan fwyaf o'r **prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru yn y canol**, ond mae pob un yn pwyso i wahanol gyfeiriadau.

Gelwir y safleoedd hyn yn **ganol chwith**, **canol de** a **chanolbleidiol**.




Mae'r Blaid Lafur yn **ganol chwith**.

Maen nhw'n credu y dylai'r llywodraeth wneud mwy i helpu pobl sy'n ennill llai o arian ac sydd mewn angen.




Maen nhw eisiau gwario mwy o arian ar **wasanaethau cyhoeddus**, fel ysgolion, trafnidiaeth, a'r GIG.




Mae'r Blaid Geidwadol yn **ganol dde**.

Maen nhw'n credu y dylai'r llywodraeth fod yn llai er mwyn rhoi mwy o ryddid i bobl.

Maen nhw’n cael ei galw “**y Torïaid”** hefyd.



Maen nhw eisiau **torri trethi** fel y gall pobl gadw mwy o'u harian eu hun a'i wario.

**Trethi** yw'r arian mae pobl yn ei dalu i'r Llywodraeth. Mae'r Llywodraeth yn gwario’r arian hwn ar wasanaethau cyhoeddus.





Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn **ganolbleidiol.**

Maen nhw'n credu y dylai'r llywodraeth gefnogi'r bobl fwyaf anghenus a rhoi mwy o rhyddid i bobl.



Maen nhw eisiau rhoi arian i'r gwasanaethau cyhoeddus ond maen nhw hefyd eisiau i bobl dalu llai o drethi.



Mae'r Blaid Lafur, y Blaid Geidwadol, a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn **unoliaethwyr**.

Mae hyn yn golygu eu bod eisiau i Gymru aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig.



Mae Plaid Cymru yn **ganol chwith**.

Maen nhw’n cael eu galw'n “**Plaid**” hefyd fel enw byr.

Maen nhw eisiau i Gymru fod yn **wlad annibynnol**.



Mae hyn yn golygu **y byddai Cymru'n gadael y Deyrnas Unedig** ac yn gwneud ei holl ddeddfau ei hun.



Mae gan yr holl bleidiau gwleidyddol hyn **Aelodau Seneddol** sydd wedi'u hethol o bob rhan o Gymru.

Mae Aelod Seneddol yn cael ei alw'n **AS** hefyd. Mae AS yn cael ei ethol i siarad o blaid y bobl sy'n byw yn eu hardal yn y **Senedd**.

Y Senedd yw'r man lle mae deddfau'r Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud.




Mae **etholiad cyffredinol** yn ddigwyddiad sy’n rhoi cyfle i bobl y wlad bleidleisio dros y llywodraeth nesaf.

Fel arfer mae etholiadau cyffredinol yn digwydd bob 5 mlynedd.

Mae **pob rhan o'r Deyrnas Unedig**, yn cynnwys Cymru, yn pleidleisio mewn etholiad cyffredinol.




Mae'r blaid sydd â'r nifer fwyaf o ASau ar ôl etholiad cyffredinol yn ffurfio'r llywodraeth.




Y **Blaid Geidwadol** sydd â'r nifer fwyaf o ASau a nhw yw'r blaid sydd mewn llywodraeth.

Eu harweinydd yw **Rishi Sunak** ac mae yntau'n **Brif Weinidog.**

Mae'r Prif Weinidog yn gyfrifol am y llywodraeth.




Y **Blaid Lafur** sydd â'r nifer ail fwyaf o ASau ac maen nhw'n ffurfio'r **Wrthblaid Swyddogol.**

Eu harweinydd yw **Syr Keir Starmer** ac mae yntau'n **Arweinydd yr Wrthblaid**.

Mae hyn yn golygu eu bod yn herio'r llywodraeth ac yn ei gorfodi i esbonio'i phenderfyniadau. Yn yr etholiad cyffredinol nesaf, **maen nhw eisiau disodli'r llywodraeth**.




Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn rhan o'r Wrthblaid Swyddogol.

Eu harweinydd yw **Syr Ed Davey**.



Mae Plaid Cymru hefyd yn rhan o'r Wrthblaid Swyddogol.

Eu harweinydd yn y Senedd yw **Liz Saville-Roberts**.

**My Vote My Voice is on a mission to register more autistic people and people with learning disabilities to vote at the next general election.**

**Visit www.myvotemyvoice.org.uk to find out more!**

## Get in touch

info@myvotemyvoice.org.uk

*#MyVoteMyVoice*




With thanks to Photosymbols and the Electoral Commission

United Response support that changes with you · dimensions · mencap · Ambitious about Autism